




"Mae hwn
yn amser
cyffrous iawn
i Fargod."



Darlun yr artist o'r
datblygiad manwerthu
aml-filiwn newydd



Ffyniant i Fargod!

Mae'r dyfodol yn edrych yn ddisglair iawn i Fargod diolch i nifer o gynlluniau cyffrous sy'n helpu i ddod a bywyd gwell i ganol y dref.

Mae'r gwaith sydd ar fynd ar ddatblygiad gwerth miliynau o bunnoedd i ddatblygu datblygiad manwerthu yn mynd yn dda. Bydd y datblygiad yn brolio archfarchnad Morrisons ynghyd a nifer o fanwerthwyr bychain yng nghalon Bargod.

Ymwelodd cynrychiolwyr o'r Cyngor, Morrisons a'r datblygwyr Simons y safle yn ddiweddar i weld y gwaith ar fynd. "Mae hwn yn amser cyffrous iawn i Fargod," dywedodd Arweinydd y Cyngor, Cyng Harry Andrews, "Mae gwaith ar ddatblygu archfarchnad Morrisons ar waith gyda'r nod i'w gwblhau erbyn Hydref 2013. Bydd y datblygiad hwn ynghyd â datblygiad sinema a bwyty yn ategu at waith adfywio ehangach sydd ar hyn o bryd yn trawsffurfio canol y dref.

'Cyfnod 1' y cynllun adfywio yw datblygu Morrisons a'r ardal manwerthu. Bydd cwblhad y cyfnod hwn yn cael ei ddilyn gan 'Cyfnod 2' sef adeiladu safle sinema aml-sgrin ar y datblygiad.

Yn gynharach eleni, cytunodd y cyngor i ariannu'r datblygiad sinema gwerth £6 miliwn ynghyd â'r datblygiad manwerthu gysylltiedig. Bydd y cyngor yn adeiladu'r sinema ac wedyn yn ei brydlesu i weithredwr sinema fasnachol.

Dywedodd Cyng Ken James, aelod cabinet dros adfywio, "Mae hwn yn newyddion gwych i Fargod ac i Fwrdeistref Sirol Caerffili ar y cyfan. Does dim sinema aml-sgrin gennym yn y fwrdeistref sirol, a gyda phoblogaeth o dros 170,000, mae hwn yn gyfleuster hamdden fawr ei angen ar gyfer ein trigolion.

Mae trafodaethau ar y gweill a byddwn yn cyhoeddi enw'r gweithredwr aml-genedlaethol yn y dyfodol agos.

Mae gwaith hefyd yn cael ei gynnal ar gyfnewidfa fysiau gynt ar Sgwâr Hanbury. Mae'r safle yn cael ei drawsffurfio i fod yn fan agored cyhoeddus bydd yn darparu canolbwynt newydd i ganol tref Bargod.



Am fwy o wybodaeth a newyddion am Fargod ewch i www.syniadmawrbargod.co.uk

Caerffili'n Cyflawni



BBC Proms yn y Parc, Tour of Britain, Y Caws Mawr - mae'r rhain a digwyddiadau mawr eraill yn denu degau o filoedd o bobl i'r ardal gan arwain at hwb mawr i'r economi leol. Mae Caerffili'n datblygu i fod yn gyrchfan allweddol i gynllunwyr digwyddiadau mawr.

Arwain y ffordd - y cyngor cyntaf i weithredu'r Cyflog Byw

Mae CBSC yn mynd i'r afael â thlodi a gwella safonau byw ar gyfer y gweithwyr ar y cyflog isaf. Rydym wedi sefyll i fyny dros 3,000+ o weithwyr i sicrhau nad oes unrhyw un ein gweithlu yn ennill llai na'r cyflog byw.

Sinema Bargod ar y gweill

Mae CBSC wedi cytuno cynlluniau cyffrous i ariannu datblygiad sinema ag manwerthu gwerth £6 miliwn i ganol tref Bargod. Dyma'r cyhoeddiad mwyaf diweddar ar gyfer y dref ac mae'n rhan allweddol i adfywiad ehangach Bargod a'r cymunedau o'i gwmpas.

Gweithio gyda'n gilydd i wella gwasanaethau cymdeithasol

Mae CBSC yn gyrru cynigion newydd cyffrous a fydd yn gweld cynghorau Caerffili a Blaenau Gwent yn arwain y ffordd yng Nghymru. Mae'r ddau awdurdod lleol wedi cytuno i integreiddio i ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol ac i gynnal gwasanaethau allweddol i bob rhan o'r gymuned.



Rhoi cychwyn cadarn i bobl ifanc



Hyd yma rydym wedi cymryd dros 260 o bobl ifanc naill ai fel gosodiadau gwaith, prentisiaethau neu dan hyfforddiant. Rydym yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol i gael pobl ar yr ysgol gyrfa drwy gynnig ansawdd, gwaith â chyflog gosodiadau.

Canolfan Rhagoriaeth Chwaraeon ar y ffordd i Ystrad Mynach



Mae gwaith dymchwel wedi dechrau ar brosiect gwerth £6 miliwn a fydd yn darparu cyfleusterau blaenaf chwaraeon yng nghanol y fwrdeistref sirol. Bydd y cynllun yn trawsffurfio cyn-safle'r ysbyty gan ddarparu safle o bwysigrwydd rhanbarthol ar gyfer datblygu chwaraeon.

Trawsffurfio ein tai cyngor



Rydym yn gwella cartrefi ein holl denantiaid drwy wasanaethu'r Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Mae hwn yn flaenoriaeth flaenllaw i'r cyngor sydd â chyllid o dros £200m rhwng 2012 a 2020.

Chwifio'r Faner Werdd



Rydym bellach yn gallu arddangos PUMP o faneri gwyrdd yn ein hardal - Parc Morgan Jones, Parc Waunfawr a Pharc Y Wern Nelson. Parc Cwm Darren a Choedwig Cwmcarn yw'r rhai mwyaf diweddar.

Yn lanach a'n wyrddach

Mae CBSC yn parhau i ddilyn yr argoelion cenedlaethol drwy gwrdd â thargedau ailgylchu'r Llywodraeth Cymru diolch i'n broses casglu syml ac ymagwedd casgliad symlach broses ac ymagwedd ragweithiol tuag at gyfranogiad ehangach.

Taclo absenoldeb salwch

Mae lefelau salwch staff y cyngor yn parhau i ddisgyn diolch i ymrwymiad y gweithlu a gwelliannau yn deillio o ymgrych barhaus y sefydliad i daclo lefelau absenoldeb a gwella iechyd staff.

Ffioedd Parcio a Theithio wedi'u gwrthod

Rydym wedi penderfynu yn erbyn cyflwyno ffioedd ar gyfer defnydd cyfleusterau parcio a theithio. Mae hyn yn newyddion gwych ar gyfer teithwyr gyda chyfleusterau am ddim yn gwneud gwasanaethau rheilffordd yn fwy deniadol a hygyrch i bawb.

Gwella ein perfformiad

Rydym yn parhau i ddarparu ar ein targedau sy'n golygu y byddwn yn derbyn grant gwerth £1.9 miliwn wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o 'Gytundeb Canlyniadau' eleni.

Rhewi prisiau prydau ysgol

Ni fydd prisiau prydau bwyd yn ysgolion cyfun a chynradd yn newid - bydd hyn yn sicrhau bod ein disgyblion yn derbyn prydau maethlon am brisiau fforddiadwy.

Diogelu staff trwy reolaeth effeithlon

Mae CBSC wedi osgoi gorfod gwneud unrhyw ddiswyddiadau gorfodol, serch gwneud arbedion sylweddol ar draws y sefydliad. Mae ein rheolaeth o adnoddau dynol wedi sicrhau bod ni'n diogelu swyddi yn y cyfnod anodd hwn.

Gwedd newydd i 'Stiwt' Coed Duon



Mae £1.3 miliwn yn cael ei wario i drawsffurfio Sefydliad y Glowyr yng Nghoed Duon. Mae'r gwaith yn cynnwys gwedd allanol newydd, cyfleusterau a mynediad gwell a hwb enfawr i'r lleoliad celfyddydau ac adloniant pwysig hwn.

Datblygu'n llyfrgelloedd ledled y fwrdeistref sirol



Mae datblygiadau o fri nawr ar agor ym Margod a Rhisga - ac mae darpariaeth ychwanegol ar y gweill ar gyfer Aberbargod, gyda datblygiadau newydd a chyffrous ar y ffordd yng Nghaerffili, Trecelyn ac Abercarn.

Eich Newline

"Cynhyrchir Newline gan y cyngor i ddod â'r newyddion diweddaraf a gwybodaeth atoch o ar draws y fwrdeistref sirol. Rydym yn awyddus i glywed eich sylwadau am y cyhoeddiad a byddwn yn croesawu unrhyw adborth. Cysylltwch â fi os oes unrhyw ymholiadau gennych am y wybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn Newline a byddaf yn danfon eich sylwadau ymlaen at yr adran berthnasol. Cofiwch - cewch fersiynau sain a phrint bras o Newline ar gais."

Stephen Pugh - Golygydd e-bost: pughs@caerffili.gov.uk

Post: Uned Gyfathrebu, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.

A greener place to live, work and visit
Man gwyrddach i fyw, gweithio ac ymweld



Canolfan rhagoriaeth chwaraeon newydd

Mae cynrychiolwyr a chwaraewyr o fri o fydd chwaraeon Cymru wedi dod ynghyd i nodi dymchwel hen ysbyty Ystrad Mynach er mwyn gwneud lle ar gyfer Canolfan Rhagoriaeth Chwaraeon gwerth 6m.

Mae gwaith clirio ar hen safle Ysbyty Ystrad Mynach (gyferbyn ag ysbyty newydd Ystrad Fawr) wedi dechrau er mwyn i'r gwaith adeiladu ar y cyfleuster chwaraeon newydd mynd yn ei flaen.

Ymunodd arwr rygbi Cymru Leigh Halfpenny â chynrychiolwyr o Ddreigiau Casnewydd Gwent, Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd ac Undeb Rygbi Cymru, ynghyd ag Arweinydd Cyngor Caerffili, y Cyng Harry Andrews i nodi'r achlysur arbennig.

"Mae'n wych i weld gwaith dymchwel yn dechrau ar y safle ac rydym bellach yn edrych ymlaen at weld y cyfleuster newydd yn datblygu," meddai'r Cynghorydd Harry Andrews. Bydd y cyfleuster o'r radd flaenaf a diweddaraf ar gyfer pêl-droed a rygbi yn cynnwys dau wyneb chwarae ffug 3ydd Cenhedlaeth er mwyn cefnogi pêl-droed a rygbi, a bydd yn cael ei gefnogi gan lefel eithriadol o seilwaith.

**Canolfan
Rhagoriaeth
Chwaraeon
gwerth 6m i
Ystrad
Mynach.**



Dywedodd y Cynghorydd Dave Poole, Aelod Cabinet dros y Gymuned a Hamdden, "Byddwn yn gallu cynnig defnydd y cyfleuster radd flaenaf hwn i'r gymuned leol sy'n ategu ein hymdrechion i annog cyfranogiad chwaraeon gwell ar draws yr holl grwpiau oedran o fewn yr ardal."



Cywilyddus, Budr, Hunanol!

Mae ymgyrch newydd trawiadol wedi'u hanelu at fynd i'r afael â baw cŵn a sbwriel ar draws bwrdeistref sirol Caerffili wedi cael ei ddadorchuddio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae'r ymgyrch drawiadol, 'Cywilyddus, Budr, Hunanol' yn anelu i godi cywilydd ar y lleiafrif anystyriol o drigolion yn y fwrdeistref sirol sy'n teimlo ei bod yn dderbyniol i ollwng sbwriel neu fethu â chodi baw cŵn, i ddeall bod eu hymddygiad fel y mae'r ymgyrch yn eu hawgrymu, - yn 'gywilyddus, budr a hunanol.'

Mae hefyd yn apelio at drigolion cyfrifol y fwrdeistref sirol i helpu i fynd i'r afael â'r materion pwysig drwy adrodd am droseddau baw cŵn a gollwng sbwriel i'r cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Dave Poole, "Rydym eisoes yn cymryd ymagwedd ragweithiol iawn i fynd i'r afael â sbwriel a baw cŵn yn ein bwrdeistref sirol - dros y ddwy flynedd diwethaf, mae nifer yr hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd gan ein tîm gorfodaeth ar gyfer y troseddau hyn wedi cynyddu gan dros 400%." Aeth ymlaen i ddweud, "Mae'r ymgyrch yn anelu i ategu ein gwaith presennol, ac yn helpu'r rhai sy'n parhau i anwybyddu'r gyfraith i ddeall bod eu hymddygiad yn ddim llai na chywilyddus, budr a hunanol."

I adrodd trosedd o faw cŵn, gollwng sbwriel ac unrhyw drosedd amgylcheddol eraill ym mwrdeistref sirol Caerffili, cysylltwch â BalchderStryd Caerffili ar **01443 866 566** neu ewch i

www.caerffili.gov.uk/balchderstydd



Cardiau Nadolig o Lefydd Unigryw!

Mae tymor y Nadolig ar ein gwarthaf... felly beth am gefnogi eich manwerthwyr lleol drwy roi cerdyn Nadolig iddynt a derbyn disgownt yn ôl?

Dros yr wythnosau nesaf, bydd trigolion yn gallu codi 'Cerdyn Nadolig o Lefydd Unigryw' o amrywiaeth o leoliadau ledled y fwrdeistref sirol - gan gynnwys llyfrgelloedd, Canolfannau Cwsmer yn Gyntaf ac yn nigwyddiadau Nadolig canol trefi. Bydd y cerdyn yn galluogi siopwyr i gael mynediad i ostyngiadau a chynigion arbennig oddi wrth fanwerthwyr sy'n cymryd rhan ym Margod, Coed Duon, Caerffili a Rhisga rhwng Rhagfyr 8fed a'r 24ain. Gellir ddod o hyd i fanylion y manwerthwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun trwy ymweld â **www.caerffili.gov.uk** - ond cadwch lygad mas hefyd am sticer seren mewn ffenestri'r siopau sy'n cymryd rhan.

PASBORT i Gyflogaeth

Mae cynllun hyfforddiant a chyflogaeth arloesol yng Nghaerffili yn arwain y ffordd yng Nghymru.

Mae'r Rhaglen PASBORT Caerffili, gyda'r nod o sicrhau bod pobl ifanc yn cael y sgiliau cywir i gael swydd, wedi derbyn hwb grant o £372,000.

Mae'r Rhaglen PASBORT wedi cael ei ddatblygu gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol Caerffili, sy'n cynnwys Cyngor Caerffili, Heddlu Gwent, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Fforwm Busnes Caerffili a'r Sector Gwirfoddol.

Cyflwynodd y bartneriaeth gais am arian dan raglen Grant Cronfa Gymdeithasol Ewrop y Bwrdd Gwasanaethau. Cafwyd cymeradwyaeth bellach ar gyfer cyfanswm cyllid o £372,219.58, i alluogi'r cynllun i symud ymlaen.

Dywedodd y Cyngorydd Harry Andrews, Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Caerffili, "Bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i roi i bobl ifanc llwybr i gyflogaeth drwy leoliadau gwaith a chyfleoedd hyfforddi o ansawdd. Mae'r cynllun wedi cael ei gymeradwyo'n llawn gan holl bartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Lleol Caerffili ac yn arfer gorau y dylid ei efelychu ledled Cymru."

Mae'r cyngor yn arwain y ffordd yn y DU drwy gynnig cannoedd o bobl ifanc y cyfle i ymuno â rhaglen Prentisiaeth a hyfforddi uchelgeisiol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf yn unig, mwy na 260 o bobl ifanc wedi ymuno â'r cynllun poblogaidd fel lleoliad gwaith neu brentisiaeth dan hyfforddiant, gan eu helpu i gael man cychwyn o ran gyrfa'r dyfodol ac ennill profiad gwaith gwerthfawr.

Mae mwy na 260 o bobl ifanc wedi ymuno â'r cynllun.



Mae CBSC yn barod yn rhedeg cynllun prentisiaeth a hyfforddiant llwyddiannus iawn.

Mae angen eich help ar Apêl Siôn Corn!

Mae apêl Nadolig arbennig a drefnir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o'r enw Apêl Siôn Corn yn bwriadu cefnogi cannoedd o blant yn yr ardal unwaith eto eleni.



Mae Apêl Siôn Corn yn anelau at gefnogi 650 o blant.

Gall pobl leol addo prynu tegan a dewis oedran, rhyw ac ardal ddaearyddol y derbynnydd.

Mae'n hawdd cymryd rhan – naill ai drwy ffonio'r llinell frys addo ar **01443 866577** neu e-bostiwrch: ymgyrchsioncorn@caerffili.gov.uk ac addo prynu anrheg i blentyn. Bydd y llinell gyswllt ar agor o **Ddydd Llun 29ain Hydref i Ddydd Gwener 23ain Tachwedd**.

Canolfannau Casglu

- Banc Barclays, Ystrad Mynach
- Banc Lloyds TSB, Rhymni
- Canolfan Teulu Rhisga, Rhisga.
- Canolfan Croeso Caerffili, Y Twyn
- Canolfan Cwsmer yn Gyntaf Coed Duon
- Canolfan Cwsmer yn Gyntaf Pontlotyn
- Harper and Wallis, Estate Agent, Heol Hanbury, Bargod

Gall yr anrhegion wedyn cael eu cymryd i un o'r canolfannau casglu sydd wedi ei leoli ar draws y fwrdeistref sirol rhwng Dydd Llun y 29ain Hydref a Dydd Llun y 3ydd o Ragfyr.

Llinell Gymorth: **01443 866577**

Cadw ein plant yn ddiogel

Mae Bwrdd Diogelu Plant Caerffili yn bartneriaeth aml-asiantaeth sy'n cynnwys yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Barnardos, CMGG, Addysg ac asiantaethau allweddol eraill sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd.

"Mae amddiffyn plant a phobl ifanc yn un o'n blaenoriaethau allweddol ac mae'r bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith mae'r asiantaethau hyn yn ei wneud i gadw plant yn ddiogel yn effeithlon ac yn effeithiol," meddai'r Cyngorydd Robin Woodyatt, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol.

Mae rhan fawr o'u gwaith yn canolbwyntio ar wneud yn siŵr bod pawb yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud pan fyddant yn pryderu am blentyn. Mae hyn yn cynnwys gwirfoddolwyr, gweithwyr proffesiynol, aelodau o'r cyhoedd, rhieni, gofalyddion a'r plant a'r bobl ifanc eu hunain.

Rydym wedi gwneud hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys trwy ein gwefan defnyddiol www.caerphillysafeguarding.org.uk lle y gallwch ddod o hyd i lawer o wybodaeth a chynghor. Rydym hefyd wedi cyhoeddi nifer o daflenni ar gyfer rhieni a gofalyddion ar amrywiaeth o faterion megis defnyddio'r rhyngwryd yn ddiogel. Yn fwy diweddar, rydym wedi datblygu cerdyn diogelu ar gyfer plant a phobl ifanc gyda manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau Childline ac eraill fel Gwasanaethau Cymdeithasol. Rydym hefyd yn darparu llawer o hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth am yr angen i gadw plant yn ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Rydym wedi hyfforddi miloedd o weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr yn y blynyddoedd diwethaf, i nodi ac adrodd cam-drin plant.

Os ydych yn aelod o grŵp gwirfoddol/cymunedol/ffydd ac mae angen hyfforddiant amddiffyn plant ymwybyddiaeth gallwn weithio â CMGG i deilwra ein hyfforddiant i ddiwallu anghenion penodol. Gallwn hefyd helpu grwpiau i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant, rhoi cyngor ar sut i recriwtio gwirfoddolwyr yn ddiogel a chael mynediad i hyfforddiant am ddim ac ati.

Ewch i www.caerphillysafeguarding.org.uk neu cysylltwch â Rheolwraig y Bwrdd, sef Zarah Newman ar newmaz@caerffili.gov.uk neu drwy ffonio **01443 864798**.

Trawsnewid cartrefi, bywydau a chymunedau

Bydd dros £200 miliwn yn cael ei wario ar wella cartrefi cyngor a thrawsnewid cymunedau ar hyd a lled bwrdeistref sirol Caerffili dros y blynyddoedd nesaf.

Yn gynharach eleni gofynnwyd i denantiaid cyngor bleidleisio ar bwy ddylai edrych ar ôl eu cartrefi – a ddylai'r cyngor i barhau i wneud, neu a ddylid trosglwyddo eu cartrefi i landlord arall. Pleidleisiodd y tenantiaid i aros gyda'r cyngor ac mae'r awdurdod nawr yn cynllunio strategaeth fuddsoddi anferth i wneud yn siŵr bod yr holl dai yn ateb gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn 2020.



Cyng. Gerald Jones

Dywedodd Dirprwy Arweinydd y cyngor, y Cyng. Gerald Jones mai dyma'r her fwyaf sy'n wynebu'r cyngor, "Rydym yn gwneud addewid i'n hunain, i'n tenantiaid ac i'r gymuned ehangach – rydym am wneud gwahanol bethau a gwneud pethau'n wahanol. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n tenantiaid a rhanddeiliaid eraill i sicrhau ein bod yn gweithio ar y cyd er lles pawb yn yr ardal."

Roedd Gerald hefyd yn glir y bydd y gyllideb o £200 miliwn yn gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i economi'r bwrdeistref sirol a gwnaeth ymroddiad personol i ddefnyddio'r arian er mwyn adfywio'r ardal, creu swyddi go iawn a gwella'r amgylcheddau yn ein cymunedau.



Bu cyfres o ddigwyddiadau ym mis Hydref i fusnesau ddod i wybod am y gwahanol gytundebau sydd yn cael eu cynnig a sut y gallant ddod yn rhan o'r gwaith gwelliannau. Mynychodd dros 400 o gwmnïau ac roedd yr ymateb o'r gymuned fusnes yn bositif iawn.

Cyfanswm gwerth y gwaith mewnol yw £93m a chyfanswm gwerth y rhaglen waith allanol yw £53.8m. Bydd y £61 miliwn sydd ar ôl yn cael ei ddefnyddio i ddelio â materion eraill fel Cartrefi sydd ddim yn Draddodiadol, Asbestos, Addasiadau i'r Anabl a Gwelliannau Amgylcheddol o gwmpas ein cymunedau.

Pwy sy'n edrych allan amdanoch chi?

Mae tenantiaid ar hyd y bwrdeistref sirol wedi ethol pobl leol i weithio efo'r cyngor i gwblhau'r prosiect a bod yn rhan o Grŵp Tasg arbennig i oruchwylio'r gwaith.

Mae un lle gwag ar ôl yn Ardal Dwyrain y Cymoedd, dylai unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu â'r Swyddfa Cyfranogiad Tenantiaid ar **01495 235025**.

Ardal Dwyrain y Cymoedd



Brian Hoskins - Pont-y-waun



Anna Lewis - Penllwyn

Ardal Cwm Rhymni Isaf



Amanda McConnell - Machen



Sandra Jones - Pen-yr-heol

Ardal Cwm Rhymni Uchaf



Clive Davies - Rhymni



Leslie Lewis - Tredegar Newydd

Caerphilly Homes
Cartrefi Caerffili




Cerdded Ffordd *GREN!*

Mae llwybr cerdded newydd yn cynnwys creadigaethau cartŵn lliwgar poblogaidd cartwnydd y Cymoedd Gren wedi cael ei lansio yn Hengoed.

Mae Llwybr Ffordd Gren wedi cael ei greu er cof am y cartwnydd poblogaidd Cymreig Grenfell Jones. Mae'r ffordd yn arddangos cymeriadau hynod Gren wedi eu sefydlu ar dirnodau o amgylch ei bentref cartrefol.

Yn y lansiad, gwahoddodd arweinydd y cyngor westeion arbennig gan gynnwys mab Gren, Daryll a Roy Noble i ymuno ag ef ar y daith. Cafodd mainc arbennig ei ddadorchuddio ar hyd y llwybr gydag un o greadigaethau annwyl Gren arno yn ogystal â phlac ar gartref plentyndod Gren. Creodd disgyblion Ysgol Gynradd Hengoed cymeriadau steil-Gren eu hun a stripiau comic i'w harddangos yn y lansiad. Cyllidwyd y cynllun drwy Ymgyrch Y Cymoedd - Calon ac Enaid Cymru a reolir gan Lywodraeth Cymru ar ran WEFO.



Digwyddiadau Nadoligaidd!

Mae'r Nadolig rownd y gornel ac mae'r cyngor yn cynnig rhaglen o ddigwyddiadau mawreddog i ddathlu'r ŵyl eleni.



Bydd Marchnadoedd Nadolig yn digwydd yng nghanol ein trefi allweddol, i orymdeithiau llusernau yn mynd ar hyd ein strydoedd yn ogystal â dathliadau'r Nadolig yn digwydd yn ein hatyniadau poblogaidd i dwristiaid.

Gan gychwyn y dathliadau ar ddydd Sadwrn 1af a dydd Sul 2il Rhagfyr bydd Marchnad Nadolig Coed Duon. Bydd digon i'w weld a'i wneud gydag amrywiaeth o stondinau bwyd a chrefft, reidiau ffair i blant ac adloniant traddodiadol yng nghanol y dref. Bydd Siôn Corn a'i geirw go iawn yn uchafbwynt y penwythnos.

Hefyd ar Ddydd Sadwrn 1af Rhagfyr, bydd Rhisga a Bargod yn ymuno yn y dathliadau gyda detholiad o ddigwyddiadau am ddim. Bydd Marchnad Nadolig Bargod yn cymryd lle rhwng 10am a 4pm, gan gynnwys Groto Siôn Corn, ac i gloi cawn ein difyrro gan arddangosfa tan gwyllt ym maes parcio Heol Hanbury. Yn Rhisga cawn flas thema Fictoraidd yn y cymysg gyda "Christmas Carol" gan Dickens a Gorymdaith Llusern ym Mharc Tredegar, Rhisga, bydd y digwyddiad yn cychwyn am 2pm.

Yn ystod yr ail benwythnos ym mis Rhagfyr, gofleidiwch eich hun ar gyfer ychydig o hwyl a sbri canoloesol yng Nghaerffili. Ar Ddydd Sadwrn 8fed a Dydd Sul 9fed Rhagfyr byddwch wrth eich bodd wrth i Ffair Nadolig Canoloesol blynyddol Caerffili lenwi canol y dref a'r castell gyda dros 120 o stondinau yn gorlifo gyda chynnyrch tymhorol.

Bydd stondinau bwyd a chrefftau ar hyd y stryd fawr ac ar faes y castell

ynghyd â gweithgareddau hwyl ac adloniant Nadoligaidd. Pris mynediad safonol yn berthnasol ar y fynedfa i'r castell, un o gestyll Mwyaf Canoloesol Gorllewin Ewrop, er bod llawer o'r adloniant o amgylch y dref yn rhad ac am ddim.

Hefyd yn dychwelyd yn ôl ar gyfer 2012 yn ôl y galw poblogaidd fydd rinc sgelfrio awyr agored gwyh. Mae hwn yn ychwanegiad ffantastig i raglen digwyddiadau'r Nadolig, ond byddwch yn gyflym oherwydd mae'n boblogaidd dros ben! Bydd y rinc sgelfrio yn dref o Ddydd Iau 13eg i Ddydd Sul 16eg Rhagfyr ac



yn costio £3 i oedolion a £2 i blant dan 16 oed a chonsesiynau.

Yn ystod pob penwythnos ym mis Rhagfyr, peidiwch ag anghofio galw mewn i Ganolfan Hamdden Caerffili i greu llusern ar gyfer Gorymdaith Llusernau Caerffili ar Ddydd Iau 20fed Rhagfyr. Mae yna nifer o orymdeithiau arall a gweithdai yn cymryd lle ar draws y fwrdeistref sirol y gaeaf hwn, felly sicrhewch fod chi'n rhan o'r digwyddiadau!

Cewch weld rhestr gyflawn y digwyddiadau drwy www.caerffili.gov.uk/ynadolig neu ffoniwch **029 2088 0011**. Bydd grwpiau cymunedol yn cynnal digwyddiadau Nadolig eu hunain gan wneud i'r calendr digwyddiadau orlifo!



Pennod Newydd i Lyfrgell Abercarn

Llyfrgell fodern newydd sbon Abercarn yn agor yn swyddogol.

Mae'r prosiect unigryw hwn wedi dwyn ffrwyth o ganlyniad i bartneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Llywodraeth Cymru, Grŵp Seren a Carn Limited. Roedd cam cyntaf datblygiad y safle yn cynnwys adeiladu 23 o fflatiau, yn cynnig amrywiaeth o dai addas ar gyfer pobl leol, gan ddod â pherchnogaeth tŷ cost isel yn ogystal â rhent is na phris y farchnad.

Yn yr ail gam o fenter Cwrt Dyffryn gwelwyd datblygu llyfrgell bwrpasol gyda 10 fflat cymdeithasol ar rent i bobl hy'n uwchben y llyfrgell. Roedd y cyngor yn gallu trosglwyddo'r tir heb orfod codi ffi. Roedd hyn yn gymorth gan gyfrannu oddeutu hanner cost y llyfrgell newydd.

Dywedodd y Cyng. Rhianon Passmore, Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, "Mae'r adeilad trawiadol hwn yn dystiolaeth o'r hyn y gellir ei gyflawni pan gaiff partneriaethau cryf eu creu. Mae'r elfen tai fforddiadwy yn enghraifft flaengar o adfywio cyfannol a phartneriaeth yn gweithio ymysg nifer o sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat."

Ychwanegodd y Cyng. Passmore, "Mae'r adeilad yn ychwanegiad gwyh i'r pentref, ers agor ym mis Mai, mae'r llyfrgell wedi gweld cynnydd o 12%

mewn benthg llyfrau a chynnydd o 25% yn nifer yr ymwelwyr, mae'r ystadegau hyn yn awgrymu dyfodol addawol i'r cyfleuster newydd."

Daeth Huw Lewis AC, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, yn ogystal â'r Cyng. Harry Andrews Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, i agoriad swyddogol y llyfrgell ac am daith o amgylch yr adeilad trawiadol ac i sgwrsio â rhai o'r bobl leol sy'n defnyddio'r llyfrgell.

Mae'r llyfrgell cynnwys amrywiaeth o wasanaethau newydd a rhai wedi eu gwella i breswylwyr lleol eu mwynhau gan gynnwys gofod wedi'i ddynodi ar gyfer digwyddiadau, wif am ddim a chyfleuster caffi menter gymdeithasol 'Pontio'r Bwlch'.



Gwella ein cymunedau

Mae'r cyngor ar hyn o bryd yn ymgynghori ynghylch cyflwyno Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) ar gyfer y bwrdeistref sirol. Tâl fydd hwn gaiff ei dalu gan gynllunwyr ar rai mathau penodol o ddatblygiadau o fewn y bwrdeistref sirol fel stadau tai ayyb.

Mae'r ymgynghoriad, sydd yn parhau tan ddydd Mercher 28 Tachwedd, yn chwilio am eich barn chi ynghylch beth ddylai cyfradd yr ardoll fod, ac hefyd ar y math o seilwaith y dylid ei ddarparu gydag unrhyw arian a gaiff ei godi.

Beth yw Ardoll Seilwaith Cymunedol?

System godi tâl newydd fydd yn cael ei chyflwyno yn Ebrill 2014 yw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC). Bydd yn cael ei defnyddio ar gyfer mathau arbennig o ddatblygiadau newydd. Caiff y tâl ASC ei osod gan y cyngor ac mae'r swm o arian gaiff ei godi wedi'i selio ar fformwlâu syml, sy'n ystyried maint a'r math o ddatblygiad sy'n talu amdano. Gall yr elw gaiff ei godi gan y tâl gael ei ddefnyddio i ariannu prosiectau seilwaith fel cynlluniau priffyrdd, caeau chwarae ayyb. Rhaid i'r cyngor hefyd ddarparu map i ddangos pa rannau o'r bwrdeistref sirol fydd y tâl yn eu heffeithio.

Pam cyflwyno ASC?

Unwaith y caiff ei gyflwyno, bydd yr ASC yn dâl sefydlog na ellir ei gyfnewid. Bydd ei gyflwyno yn rhoi sicrwydd i ddatblygwyr ynghylch beth fydd rhaid iddynt ei dalu tuag at ddarparu seilwaith i gefnogi eu cynlluniau datblygu newydd. Bydd yr ASC yn arf arwyddocaol yn yr ymdrech i wireddu uchelgeisiau'r cyngor yn nhermau seilwaith cymunedol a chymdeithasol ac adfywio; meysydd lle nad oes mecanwaith amgen ar gyfer cyllido.

Sut y gallaf i gael gwybod mwy

Am fwy o wybodaeth ewch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch **01495 235 376**.

Sut i gyflwyno sylwadau

Dylai sylwadau gael eu gyrru yn ysgrifenedig i'r Tîm Cynlluniau Datblygu a Strategaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Pontllan-fraith, Coed Duon, NP12 2YW, neu ar e-bost i cynllundatblygulleol@caerffili.gov.uk, erbyn 28 Tachwedd 2012 ar yr hwyraf.

Newidiadau i'ch Budd-daliadau Tai gan Lywodraeth y DU

Newidiadau i fudd-daliadau tai ar gyfer tenantiaid (sydd o oed gweithio) y cyngor a landlordiaid cymdeithasol eraill

Mae Llywodraeth y DU yn **lleihau** cyfanswm cyfanswm y budd-daliadau tai y gall rhai pobl hawlio ar sail maint yr eiddo sy'n cael ei rhentu a sawl person sy'n byw yno.

Bydd y dudalen hwn yn eich helpu ddod o hyd:

- **I bwy** fydd yn cael eu heffeithio
- **I le** gallwch fynd am **help** a **chyngor**

Mae'r rheolau newydd yn effeithio ar **denantiaid o oedran gweithio** (oedran gweithio yw'r oedran cyn i berson gyrraedd oedran credyd pensiwn). Cymeradwywyd Deddf Diwygio Lles Llywodraeth y DU ym mis Mawrth 2012, ac un o'r prif newidiadau yw'r un yn ymwneud â budd-daliadau tai. Bydd nifer o denantiaid tai cymdeithasol (sy'n rhentu o'r Cyngor neu o Gymdeithasu Tai) yn gweld newid i'w budd-dal tai o Ebrill 2013.

O fis Ebrill 2013 caiff budd-daliadau tai eu lleihau i denantiaid o oedran gweithio i ganiatáu un ystafell gwely yn unig ar gyfer pob un o'r canlynol:

- Cwpl.
- Person nad yw'n blentyn (16 oed neu'n hŷn).
- Dau blentyn o'r un rhyw.
- Dau blentyn o dan 10 oed.
- Unrhyw blentyn arall (heblaw am blentyn maeth neu sydd a'i brif gartref rhywle arall).
- Gofalydd (neu grŵp o ofalyddion) sy'n darparu providing overnight care).

Rhai enghreifftiau:

Maint y Teulu	Gwely y caniateir
Cwpl gydag un plentyn	2 ystafell wely
Rhiant sengl gyda merch 6 oed a bachgen 8 oed	2 ystafell wely
Cwpl gyda merch 6 oed a bachgen 12 oed	3 ystafell wely
Rhiant sengl gyda bachgen 17 oed a bachgen 12 oed	3 ystafell wely
Cwpl gyda merched 17 oed ac 14 oed a bachgen 9 oed	4 ystafell wely

Faint o fudd-dal tai byddaf yn colli?

Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau, os oes gennych fwy o ystafelloedd gwely na sydd angen o dan y rheolau newydd, gelwir hyn yn 'tanfeddiannaeth' ac fe allech chi golli rhan o'ch budd-dal neu'r holl gyfanswm. O ydych yn **tanfeddiannu'ch eiddo gan 1 ystafell wely** y caiff eich budd-dal ei leihau gan **14% o'r swm rhent**.

Rhai enghreifftiau:

Rhent yr wythnos	Lleihad yn y budd-dal tai/diffyg os ydych yn tanfeddiannu
£69	£9.66
£75	£10.50
£80	£11.20

Os ydych yn tanfeddiannu'ch eiddo gan **2 ystafell wely neu fwy**, caiff eich budd-dal tai ei leihau gan 25% o'ch swm rhent.

Rhent yr wythnos	Lleihad yn y budd-dal tai/diffyg os ydych yn tanfeddiannu
£76	£19.00
£82	£20.50
£89	£22.25

Bydd y newid yn dod i rym ar **1 Ebrill 2013** ar gyfer pob un sy'n hawlio budd-daliadau tai ar hyn o bryd a rhai sy'n hawlio o'r newydd, sy'n rhentu oddi wrth y Cyngor neu Gymdeithasu Tai.

Eich cyfrifoldeb chi yw dod o hyd i'r diffyg ariannol a thalu'ch rhent yn llawn.

Sut gallaf wneud i fyny'r diffyg yn y rhent?

Os ydych yn tan-feddiannu ac mae'ch budd-dal Tai yn cael ei dorri, mae yna nifer o opsiynau gallwch ystyried.

Aros yn yr un eiddo

Gallwch ddewis talu'r gwahaniaeth rhwng y Budd-dal Tai a'ch rhent eich hunan: -

- Trwy ddefnyddio incwm arall eich hunan.
- Gofyn i bobl nad ydynt yn ddibynyddion i gyfrannu.
- Cymryd i mewn lletywr.
- Cynyddu'ch oriau gwaith.
- Cymryd swydd.
- Ceisio am Daliad Tai Dewisol (sef y DHP) - Mewn amgylchiadau arbennig gal ymgeisydd fod yn gymwys i dderbyn taliad am gyfnod dros dro o'r Gronfa Taliad Tai Dewisol. Mae hyn yn gronfa sy'n cael ei redeg gan yr awdurdod lleol i'r rheiny y maent yn ystyried sydd mewn angen cymorth dwys.

Symud i eiddo gwahanol

Gall y cyngor eich helpu i symud i eiddo llai, ond nid oes gennym ddigon o anheddau i roi cymorth i bawb yn syth. Fe ddylech hefyd ystyried: -

- Cyfnewid naill i'r llall - Mae'r cyngor yn aelod o'r gwasanaeth cenedlaethol 'Homeswapper' sy'n dal manylion cyfnewidion naill i'r llall o fewn bwrdeistref sirol Caerffili ynghyd â manylion rhai o du allan i'r ardal. Gall unrhyw denant o Fwrdeistref Sirol Caerffili gofrestru am ddim ar safle we 'Homeswapper' sef www.homeswapper.co.uk

- Cofrestru gyda Landlord Cymdeithasol Cofrestredig.
- Rhentu eiddo preifat.

Yma i'ch helpu CHI

Rydym yn deall y bydd hyn yn gyfnod o ansicrwydd a phryder i rai tenantiaid, bydd y rheolau newydd ar waith o Ebrill 2013, felly nawr yw'r amser i gael help a chymorth.

Cysylltiadau

Tenantiaid y Cyngor Ffôn: **01495 235600**
e-bost: rhenti@caerffili.gov.uk

Tenantiaid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig
Cysylltwch â'ch landlord. Rhestrir y brif rai isod:

Wales and West Housing Association
Ffôn: **0800 0522526**

United Welsh Housing Association
Ffôn: **0800 2940195**

Linc-Cymru Housing Association
Ffôn: **029 2047 3767**

Charter Housing Association
Ffôn: **01633 212375**

Aelwyd Housing Association
Ffôn: **029 2048 1203**

Gallwch gael mwy o wybodaeth ddefnyddiol ar safle we'r Cyngor:

Newidiadau i fudd-daliadau tai

www.caerffili.gov.uk/tanfeddiannaeth

Newidiadau budd-daliadau -

Deddf Diwygio Lles 2012

www.caerffili.gov.uk/newidbudd-daliadau



UsefulNumbers

RhifauDefnyddiol

MAIN SWITCHBOARD

PRIF SWITSFWRDD

☎ 01443 815588

Minicom Minicom

☎ 01443 873626

Emergency number for all services:

Rhif argyfwng ar gyfer pob gwasanaeth:

☎ 01443 875500

(Out of hours only • Allan o Oriau yn unig)

Adult's Social Services

Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

☎ 0808 100 2500

StreetPride BalchderStryd

☎ 01443 866566

Children's Social Services

Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant

☎ 0808 100 1727

Consumer Advice

Cyngor i Defnyddwyr

☎ 01495 235111

Council Tax Enquiries

Ymholiadau Treth y Cyngor

☎ 01443 863002

Furniture Recycling

Ailgylchu Dodrefn

☎ 01685 846830

Housing & Council Tax Benefits

Budd-daliadau Tai/Treth y Cyngor

New Claims: 01443 866567

Existing Claimants: 01443 864099

Christmas Refuse & Recycling Collections	
Normal collection day	Revised collection day
24th December	Collection as normal
25th Dec (No Collection)	27th December
26th Dec (No Collection)	28th December
27th December	29th December
28th December	30th December
31st December	Collection as normal
1st Jan (No Collection)	2nd January
2nd January	3rd January
3rd January	4th January
4th January	5th January
6th January	No collections
7th January	Normal collections

Please put your bins/boxes/bags/caddies out prior to 6am on your scheduled collection day. Additional waste (up to 2 bags) will be accepted over the holiday period.

Wrapping paper (non-foil based) and small amounts of cardboard can be placed in your recycling bin, larger amounts of cardboard can be deposited at Household Waste Recycling Centres.

Don't forget to take your Christmas Trees to these sites for recycling too!

Household Waste Recycling Centres will be closed on Christmas Day, Boxing Day and New Years Day. Normal opening times for all other days 9am to 4-30 pm.

What's ON / Digwyddiadau

www.caerphilly.gov.uk/events

www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau

Sign up to receive regular information about local events by e-mailing: events@caerphilly.gov.uk • Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy e-bostio: digwyddiadau@caerffili.gov.uk

River of Light Parade Workshops

Gorymdaith Afon y Goleuni - Gweithdai

1-2/8-9/16-17 - 10am

Caerphilly Leisure Centre • Canolfan Hamdden Caerffili

A Chance to show off your artistic skills & make your very own lantern ready for the big parade on the 20th December.

Cyfle i ddangos eich sgiliau artistig a gwneud eich llusern eich hun yn barod ar gyfer yr orymdaith fawr ar 20fed Rhagfyr.

02920 880011

Business Funding Event

Digwyddiad Cyllid Busnes

21/11/2012 - 10am

Bargoed Library & Cafe • Bargoed Llyfrgell a llyfrbryf Caffi

Find out whether your business is eligible for financial assistance. Grant support for start-up businesses and established businesses. Call in anytime between 10.00am and 1.00pm to talk to us.

Dewch o hyd i os yw'ch busnes yn gymwys am gymorth ariannol. Cymorth grant ar gyfer dechrau busnesau newydd a busnesau sefydledig. Galwch heibio unrhyw bryd rhwng 10:00-13:00 i siarad â ni.

01443 866222

Caerphilly Christmas Lights Switch On

Cynnuau Goleuadau Nadolig Caerffili

23/11/2012 - 6pm

Twyn Community Centre • Canolfan Gymunedol Y Twyn

Sing Christmas carols and songs, and meet Father Christmas.

Canwch garolau a chaneuon Nadolig, ac yna cwrdd â Siôn Corn.

02920 888777

Christmas Market

Marchnad Nadolig

24 - 25/11/2012 - 10am

Cwmarn Forest Drive • Ffordd Goedwyc Cwmarn

Christmas Market at the visitor centre. This is the perfect opportunity to buy bespoke Christmas gifts.

Marchnad Nadolig yn y ganolfan ymwelwyr. Dyma'ch cyfle perffaith i brynu anrhegion Nadolig pwrpasol.

01495 272001

Deck the Halls

8th December 2012, 10am

Winding House

Explore Christmas through the ages with these days of festive fun! How was Christmas celebrated in the past and where do our own traditions come from? Admission: FREE.

01443 822666

8fed Rhagfyr 2012, 10am

Y Tŷ Weindio

Archwiliwch y Nadolig drwy'r oesoedd gyda'r diwrnodau o hwyl yr ŵyl! Sut gafodd y Nadolig dathlu yn y gorffennol a lle mae ein traddodiadau ein hunain yn dod? Mynediad: AM DDIM.

01443 822666

Addurnwch y Neuaddau

Dickens Christmas Carol & Lantern Parade

Saturday 1st December 2012, 2pm

Tredegar Park - Risca

A free, festive event for all the family.

01495 273255 / 270210

www.caerphilly.gov.uk/christmas

Sadwrn 1af Rhagfyr, 2012, 2pm

Parc Tredegar - Rhisga

Digwyddiad Nadolig rhad ac am ddim i'r teulu cyfan.

www.caerffili.gov.uk/ynadolig

Gorymdaith Carolau Dickens a Llusernau

River of Light Lantern Parade

20th December 2012 - 6.30pm

Caerphilly Town Centre

From Caerphilly Railway Station a festive parade through the town, followed by a spectacular fireworks display above the skies of Caerphilly Castle.

02920 880011

20fed Rhagfyr 2012 - 6.30pm

Canol Tref Caerffilie

Dilynwch yr orymdaith Nadoligaidd o Orsaf Reilffordd Caerffili drwy'r dref, wedi'i ddilyn gan arddangosfa dân gwyllt ysblennydd uwchben Castell Caerffili.

02920 880011

Gorymdaith Llusernau Afon y Goleuni

Jack and the Bean Stalk - Christmas Pantomime

Pantomeim Nadolig - "Jack and the Beanstalk"

30/11 - 09/12/2012 - 7pm

Blackwood Little Theatre • Theatr Fach Coed Duon

Family Pantomime - fun for all the family! Tickets - £10 adult, £8 Concession, £32 Family of four Early Bird offer - 5% off before 20th October * 10% off bookings of 10 or more Book via website: www.blackwoodlt.org.uk/tickets or hotline number.

Pantomeim Teulu - hwyl i'r teulu cyfan! Tocynnau - £10 i oedolion, £8 Concesiw, Cynnig Cynnar i deulu o bedwar £32 - 5% i ffwrdd cyn 20 Hydref* 10% oddi ar archebion o 10 lle neu fwy. Bwciwch drwy'r wefan: www.blackwoodlt.org.uk/tickets neu drwy ffônio'r llinell gymorth.

07930 599317

Rudry Kitchen Rural Christmas Market

Marchnad Nadolig Gwledig Cegin Rhydri

02/12/2012 - 10am

Rudry Parish Hall • Neuadd y Plwyf Rhydri

Rudry's Kitchen's Christmas Rural Market will be full of local foods & Crafts including The Preservation Society, BakedbyMel, Hapus Ice cream, Untapped Ale, Mimi Designs, Tracey Hoy's Art, Johnny Mutley and many more. The cafe will open and will be having a special visit from Father Christmas.

Bydd Marchnad Nadolig Gwledig Cegin Rhydri yn llawn o fwydd a chrefftau lleol gan gynnwys y Gymdeithas Cadwraeth, BakedbyMel, hufen iâ Hapus, Untapped Ale, Mimi Designs, Tracey Hoy's Art, Johnny Mutley a llawer mwy. Bydd y caffi ar agor a bydd ymweliad arbennig gan Siôn Corn.

07779 187891

Christmas Crafts with the Christmas Fairy

Crefftau Nadolig gyda'r Tylwyth Teg Nadolig

1/8/15 & 22/12/12 - 11am - 4pm

Llancaich Fawr Manor • Maenordy Llancaich Fawr

Craft activities and games for children. Suitable for children up to 11yrs. Children must be accompanied by an adult.

Gweithgareddau crefft a gemau i blant. Yn addas ar gyfer plant hyd at 11 oed. Rhaid i blant fod yn nghwmni oedolyn.

01443 412248

Yule Tide logs

Boncyffion Nadolig

15/12/12 - 10.30am - 1pm

Parc Cwm Darran Visitor Centre, Deri • Canolfan Ymwelwyr Parc Cwm Darran, Deri

Yule love making Yule Tide logs! Have a go at creating festive decorations using natural Materials. Charge £2 to make a log. Booking required for this event.

Byddwch yn sicr o garu gwneud Boncyffion Nadolig! Rhawch gynnig ar greu addurniadau Nadolig gan ddefnyddio deunyddiau naturiol. Cost o £2 i wneud boncyff. Mae angen archebu lle ar gyfer y digwyddiad.

01443 875557

Dealing with doorstep sellers:

The council and police advise residents to be wary of sellers who may offer goods and services on the doorstep:

- Think carefully about agreeing to a deal on the spot - It is always better to shop around and compare quotes.
- Use a reputable firm that you are happy you will be able to contact again should any faults need putting right.
- Be wary of any business literature that only gives a mobile phone number. They are difficult to trace. Look for a landline.
- Remember that you often have cancellation rights if you do agree to having work done or buying services when in your home.
- ID Cards are very easy to fake on a computer. Use a phone number from the yellow pages or directory enquires to call the head office and see if the caller is genuine. Never trust a number given to you by the caller, there could be an accomplice at the end of the phone.
- Trading Standards and Gwent Police support a 'Nominated Neighbour' scheme whereby vulnerable members of the community can nominate a neighbour who will check the callers' identity and then return with the caller.
- If you feel afraid, harassed, threatened or intimidated by a caller, call the Police on 999 straight away.

Improvement Plan Update

In 2009 the council agreed 13 priorities across a 3 year period between 2009 & 2012.

The priorities were chosen for a wide range of reasons, some because we wanted to perform better, some containing projects and areas of work that would be financially or politically important and some based on citizen feedback.

The full update on our achievements is available from all Council Receptions, your local Library, Leisure Centres and online at www.caerphilly.gov.uk

Council Tax: Don't Ignore It - Talk To Us

The council is sometimes contacted by people who are unhappy with the action being taken to collect overdue council tax.

Such action can involve automatic deductions from earnings or benefits, the placing of a charging order upon a dwelling or bailiffs visiting your home. As a last resort, committal to prison proceedings can be taken.

If your council tax payments are not received when they are due, we will issue several documents before taking court action and recovering your unpaid council tax. Additional legal and other costs are often payable by the person owing the council tax because of the work involved in recovering the debt. So if you want to avoid paying more than you have to, you must ensure your payments are made on time.

If you are experiencing financial difficulties, don't ignore our letters, please talk to us on 01443 863002 / 863004 or e-mail counciltax@caerphilly.gov.uk.

From 1st April 2013 Council Tax Benefit becomes Local Council Tax Support.

You may have heard about the UK Government's plans to reform the welfare and benefits system from April 2013. Council Tax Benefit is one of the benefits that will be affected by the changes and from next year, the responsibility for helping people with their council tax bills is being transferred to the Welsh Government. We are working with the Welsh Government to develop a new scheme to replace Council Tax Benefit in Wales and will write to you with more information before the new scheme is introduced.

PROTECTING YOU

The council's Public Protection team aims to ensure that the county borough is a healthy, safe & fair place for people to live, work & visit. One of the team's key tasks is to expose and bring before the courts those individuals and businesses we discover acting illegally.

Below are examples of recent prosecutions:

Defendant	Offence	Court Decision
Violet Elaine Jones of Cefn Hengoed.	Possession for supply of counterfeit cigarettes and cigarettes not marked with health warnings. 9/10/2012 at Caerphilly Magistrates Court.	12 weeks imprisonment, suspended for 12 months, 12 month supervision order, forfeiture of all tobacco products & £500 costs to the Local Authority. Trade Marks Act 1994.The Tobacco Products (Manufacture, Presentation & Sale) (Safety) Regulations 2002.
Tammy Alison Thomas trading as Tee Dee Crazy Bargains of Caerphilly.	Sale and possession for supply of counterfeit clothing and bags. 1/10/2012 at Abergavenny Magistrates Court.	£200 fine, £285 costs to the Local Authority and £15 victim surcharge. Trade Marks Act 1994.
Alex Adrian Barwood trading as Tyre Co, Ystrad Mynach	Sale of a motor vehicle without declaring fact it was a Category D Insurance Write Off. 1/10/2012 at Caerphilly Magistrates Court.	£250 fine, £332.72 costs to the Local Authority and £15 victim surcharge. Further fine of £250 imposed in relation to previous conviction in July'11 (exposing a dangerous vehicle for sale) in breach of conditional discharge. Consumer Protection from Unfair Trading Regulations 2008.
Kim Walker trading as the Newbridge Hotel	Sale of alcohol to person under the age of 18. 1/10/2012 at Caerphilly Magistrates Court.	£400 fine, £482.02 costs to the Local Authority and £15 victim surcharge. Licensing Act 2003

To view the full list, visit www.caerphilly.gov.uk/prosecutions

Prosecution results are provided for a limited period to promote the openness of the council's actions to local residents. Information provided must not be reused in any form without the agreement of CCBC.

p.8 November 2012 Newsline

For more news visit www.caerphilly.gov.uk/news • Am fwy o newyddion ymwelwch â www.caerffili.gov.uk/newyddion

Newsline Tachwedd 2012 t.8